

Nodiadau Canllaw i Berchnogion Tir

Cyflwyniad

O dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall perchennog tir ar unrhyw adeg adneuo datganiad a chynllun sy'n dangos pa lwybrau dros ei dir sydd wedi eu dynodi fel priffyrdd.

Nid yw cyflwyniadau o dan Ddeddf 1980 yn amddiffyn perchennog tir rhag hawliadau i sefydlu defnydd di-dor am 20 mlynedd cyn dyddiad y cyflwyniad, neu wedi eu seilio ar dystiolaeth ddogfennol.

Er hynny, nid yw adneuo yn atal amser rhag mynd yn ei flaen ar gyfer caffael hawliau cyhoeddus drwy ddefnydd, ac mae'n gyfwerth â sialens effeithiol am hawliadau yn y dyfodol.

Mae'r drefn yn cynnwys dwy ran:

CAM 1: Datganiad a chynllun

1. Map o'r tir ar raddfa o ddim llai na 6 modfedd i'r filltir (1/10,000).
2. Datganiad sy'n dangos pa ffyrdd (os o gwbl) dros y tir y cydnabyddir sydd wedi eu cyflwyno fel priffyrdd.

Gellir cael copïau drafft o ddatganiad a detholiadau o'r Map Swyddogol o hawliau tramwy cyhoeddus gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Mae'r datganiad a'r cynllun yn cael eu gwirio yn erbyn y Map Swyddogol o hawliau tramwy cyhoeddus, a bryd hynny bydd unrhyw gyngor a sylwadau yn cael eu rhoi.

Os nad oes angen newidiadau pellach i'r datganiad a'r cynllun, bydd dyddiad yn cael ei roi pan ddaw yr adneuo a'r wybodaeth i rym er mwyn bwrw ymlaen i'r cam nesaf.

CAM 2: Datganiad Statudol

Er mwyn gwneud yr adneuo yn weithredol cyfrifoldeb perchennog y tir yw cyflwyno datganiad statudol. Mae'n debyg ei bod hi'n ddoeth i wneud hyn cyn gynted â phosib.

Mae datganiad statudol yn ddogfen a wnaed ar lw, sy'n cadarnhau bwriad gwreiddiol yr adneuo ac yn cadw ei rym am y ddeng mlynedd ddilynol ac mae'n cynnwys:

1. Map sy'n dangos y tir dan sylw sydd fel arfer ag ymyl goch.
2. Datganiad statudol sy'n cadarnhau yr adneuo gwreiddiol.

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn darparu ar gyfer cyfnod adnewyddu o ddeng mlynedd o'r 13 Chwefror 2004 (oni bai fod yr adnewyddu yn hwyr ar y dyddiad hwnnw).

Gellir cael copïau drafft o ddatganiad statudol gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno datganiad statudol bob deng mlynedd yn gorwedd gyda pherchennog y tir ac unrhyw olynwyr yn nheithl y tir, er mwyn cynnal effeithlondeb yr adneuo gwreiddiol. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar yr Awdurdod i atgoffa perchnogion tir pan fo angen adnewyddu datganiadau statudol. Cyfrifoldeb perchennog y tir yn hollol yw cofio.

O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, gall y cyhoedd gael mynediad i ddatganiadau a wnaed o dan adran 31(6). Mae'r Map a'r Datganiad Swyddogol hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Dylid anfon mapiau wedi eu cwblhau, datganiadau a mynegiadau i'r:

Uned Hawliau Tramwy,

Cyngor Gwynedd,

Stryd y Jêl,

Caernarfon,

LL55 1SH.

DALIER SYLW:

CANLLAW YN UNIG YW'R NODIADAU HYN, I GAEL RHAGOR O WYBODAETH FANWL DYLECH GYSYLLTU Â'R SWYDDOG HAWLIAU TRAMWY YN EICH ARDAL NEU EICH YMGYNGHORYDD CYFREITHIOL.